



Our ref: WG0701-14

Prif Swyddogion Cynllunio

9 Ionawr 2014

Annwyl Gyfaill,

### **Polisi Cynllunio ar Berygl Llifogydd a Newidiadau sydd i'w cyflwyno gan y Diwydiant Yswiriant**

Yn sgil llifogydd a stormydd diweddar rwyf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am nifer o faterion sydd wedi codi mewn perthynas â dehongli a defnyddio polisi cynllunio cenedlaethol sy'n ymdrin â datblygiadau a pherygl llifogydd.

### **Yswiriant Llifogydd a ddarperir gan y Diwydiant**

Mae yswiriant llifogydd yn weithgarwch ariannol a gadwyd yn ôl ac, o'r herwydd, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano. Yn ystod haf diwethaf (2013), bu DEFRA yn ymgynghori ynglŷn â [chynigion](#) (ar gael yn Saesneg yn unig) a oedd yn ymwneud â sut y bydd y diwydiant yswiriant yn mynd ati i ddarparu yswiriant llifogydd ar gyfer adeiladau domestig yn y dyfodol. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft rhwng Llywodraeth y DU a Chymdeithas Yswirwyr Prydain, ac mae'r Memorandwm hwnnw wedi dylanwadu ar y cymalau yn y Bil Dŵr sy'n ymdrin ag yswiriant llifogydd. Mae'n bosibl y bydd y cymalau hynny'n effeithio ar geisiadau cynllunio, ac ar y gallu i ddangos bod cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gael ar gyfer tai.

Mae'r cynigion newydd yn seiliedig ar gyflwyno "Flood Re", sef cronfa ailyswirio ar gyfer aelwydydd risg uchel, a fyddai'n capio premiymau yswiriant llifogydd. Byddai premiymau'n cael eu pennu yn ôl bandiau treth gyngor yr eiddo ac felly, byddai pobl sy'n berchen ar dai, yn ogystal â darpar brynwyr, yn gwybod beth fyddai'r swm uchaf y gellid gofyn iddynt ei dalu am yswiriant llifogydd.

Fodd bynnag, dim ond i eiddo a adeiladwyd cyn 2009 y bydd y cynigion hyn yn gymwys ac felly, bydd yn rhaid i unrhyw ddatblygiadau newydd a godir ar ôl y dyddiad hwnnw dalu premiymau heb eu capio a fydd yn adlewyrchu'r risg. O'r herwydd, er mwyn gwneud yn siŵr y bydd modd i bobl gael sicrwydd yswiriant, yr unig bryd y caniateir datblygiadau newydd mewn ardal perygl llifogydd yw lle bydd modd gwneud yr ardal honno'n ddiogel rhag lefelau tebygol penodol o lifogydd neu'n abl i wrthsefyll lefelau tebygol penodol o lifogydd (e.e. 1 ym mhob 100 neu 1 ym mhob 200), a lle na fydd hynny'n arwain at fwy o berygl llifogydd yn rhywle arall.

Yng Nghymru, mae safon y mesurau lliniaru sy'n ofynnol i'w gweld yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Mae crynodeb o'r gofynion hynny i'w gweld yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

### **Pam mae yswiriant llifogydd yn ystyriaeth gynllunio?**

Fel arfer, mae benthycwyr morgeisi yn y DU yn mynnu bod pobl sy'n cael morgais ganddynt yn prynu yswiriant adeiladau sy'n cynnwys yswiriant llifogydd. Felly, os nad oes mesurau lliniaru o'r safon briodol yn eu lle ar gyfer cartrefi newydd a adeiledir ar ôl 2009, yna mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau ar yr yswiriant a fydd ar gael, neu efallai na fydd modd cael yswiriant o gwbl. Bydd hynny, yn ei dro, yn effeithio ar allu prynwyr i gael morgeisi, a fydd yn golygu wedyn na fydd modd gwerthu eiddo. Gallai ansicrwydd o'r fath yn y farchnad olygu na fydd y datblygiad yn cael ei adeiladu o gwbl, gan arwain at sefyllfa lle na fydd unedau a all gyfrannu at ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dai.

Gan y bydd adeiladau newydd yn talu prisiau a fydd yn adlewyrchu'r risg am yswiriant, mae'n ysgogiad arall i ystyried oes y datblygiad ar ei hyd a sut y bydd trigolion yn gallu dygymod â pherygl llifogydd yn yr hirdymor.

### **Sut y bydd y Diwydiant Yswiriant yn gwybod a fydd datblygiadau newydd yn bodloni'r safonau priodol o ran mesurau lliniaru llifogydd ai peidio?**

Bydd darpariaethau yn y Bil Dŵr a fydd yn ymwneud â rhannu data rhwng y diwydiant yswiriant, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, a Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn cynnwys yr adroddiad Targed Lefel Uchel (HLT) 13 sy'n cael ei baratoi bob blwyddyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae HLT13 yn nodi'r ceisiadau cynllunio hynny a gafodd eu cymeradwyo mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, a'r rheini a gymeradwywyd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan y diwydiant yswiriant, wrth iddo fynd ati i ystyried

a ddylid yswirio datblygiadau unigol, i benderfynu a yw lefel y perygl llifogydd yn dderbyniol ai peidio.

### **Perygl Llifogydd Dŵr Wyneb**

O dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, mae'n ofynnol paratoi mapiau llifogydd dŵr wyneb erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013. Mae'r Awdurdodau Llifogydd Lleol wedi bod yn cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i baratoi map llifogydd dŵr wyneb. Mae'r mapiau i'w gweld ar: <http://maps.environment-agency.gov.uk/wiyby/wiybyController?ep=maptopics&lang=w>

Nodir yn adran 8 o TAN15 y gall fod angen ymgynghori ag Awdurdodau Draenio Tir ynglŷn â dŵr wyneb. Mae'n bosibl, felly, y bydd angen ymgynghori'n fewnol â chydweithwyr sy'n cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol er mwyn penderfynu a yw risg llifogydd dŵr wyneb yn broblem wrth ddyrannu tir mewn cynlluniau datblygu lleol neu wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol.

O ran perygl llifogydd a achosir gan afonydd neu'r llanw, dylid cyfeirio at y Mapiau Cyngor ar Ddatblygu a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y fersiynau diweddaraf o'r mapiau hynny eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2013, ac maent i'w gweld ar: <http://data.cymru.gov.uk/apps/floodmapping/>

### **Y Newid yn yr Hinsawdd ac Oes Datblygiad**

Mae paragraff A1.5 o TAN15 yn nodi bod yn rhaid i ddatblygiad arfaethedig gynnig amgylchedd gwaith a/neu amgylchedd byw diogel a chadarn ar hyd ei oes ac y dylid, wrth asesu, gymryd bod y tebygolrwydd o lifogydd yn 0.1% (1 siawns ym mhob 1000) mewn unrhyw flwyddyn.

Yn ôl cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru, 100 mlynedd yw oes datblygiad preswyl, a bernir mai 75 mlynedd yw oes unrhyw ddatblygiad arall.

O'r herwydd, mae angen ystyried effaith bosibl y newid yn yr hinsawdd yn ystod oes y datblygiad ar ei hyd, a chynnwys tebygolrwydd llifogydd o 0.1%.

### **Ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru**

Eir ati yn adran 6 o TAN15 i nodi'r profion y dylid eu hystyried er mwyn cyfiawnhau lleoli datblygiadau mewn ardal lle mae perygl llifogydd. Mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw hwn, a dylid cynnal y profion yn eu trefn. Felly,

dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol fod yn gallu nodi sut y mae datblygiad arfaethedig yn bodloni gofynion profion i, ii, and iii o baragraff 6.2 cyn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru am unrhyw Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd y mae angen eu cynnal er mwyn bodloni gofynion prawf iv. **Mae paragraff 6.2, yn benodol, yn nodi na ddylid caniatáu datblygiad sy'n agored iawn i niwed (e.e. tai) ym Mharth C2 ac mae paragraff 10.8 yn datgan na ddylid gwneud dyraniadau sy'n agored iawn i niwed ym mharth C2.**


Gwelir yn yr adroddiad HLT13 diweddaraf fod y rhan fwyaf o wrthwynebiadau a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2012/13 yn gysylltiedig â cheisiadau nad oeddent yn cael eu hategu gan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

Yn ôl paragraff 3.4 o TAN15, bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio ei fodloni ei hun bod cyfiawnhad i'r cynnig a bod canlyniadau posibl y llifogydd yn dderbyniol, a bydd yn rhaid i ddatblygwyr ddangos bod eu cynigion yn bodloni'r profion sydd yn y Nodyn Cyngor Technegol. Mae TAN 15 yn nodi mai cam cyntaf unrhyw asesiad fydd i'r datblygwyr gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag amcanion yr asesiad.

Wrth roi ei gyngor technegol arbenigol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi pa mor dderbyniol fydd canlyniadau llifogydd o ran y perygl i bobl ac i eiddo sy'n rhan o'r datblygiad. Ni fydd, er hynny, yn nodi a fydd modd mynd i mewn ac allan o'r safle yn ddiogel, a hynny oherwydd mai mater yw hwnnw i'r gwasanaethau brys benderfynu arno ar gyfer pob safle unigol, gan ddibynnu ar eu gallu gweithredol a'r cyfarpar sydd ganddynt. Mae'n bosibl y bydd y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ar gyfer eich ardal yn gallu cynnig cyngor yn hyn o beth, mewn cydweithrediad â chynllunwyr argyfwng yr awdurdod lleol. Daeth y mater hwn i'r amlwg yn yr ymatebion a ddaeth i law oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau cynllunio lleol; ond, o edrych ar y sampl o adroddiadau pwyllgorau cynllunio, nid yw'n glir sut y bu'r awdurdodau cynllunio lleol yn mynd i'r afael ag ef.

Rydym yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y materion a godwyd yn y llythyr hwn, ac ystyried hefyd sut y gallent effeithio ar hyfywedd datblygiadau, ac ar gyflenwi datblygiadau mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd.

Yn gywir ,



**Rosemary Thomas**

Prif Gynllunydd / Dirprwy Gyfarwyddwr

Planning Division  
Welsh Government  
Cathays Park  
Cardiff  
CF10 3NQ

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400

Adran Tai ac Adfywio

Planning Division  
Welsh Government  
Cathays Park  
Cardiff  
CF10 3NQ

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400